Hawdd ei Ddeall

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Strategaeth Ymgysylltu â Phobl Ifanc 2024 i 2034

## Ein cynllun i gefnogi pobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei **hysgrifennu gan Gyngor Nedd Port Talbot.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Strategaeth Ymgysylltu â Phobl Ifanc Castell-nedd Port Talbot 2024 – 2034**'.

**Ionawr 2025**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 39**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni,** mae hyn yn meddwl **Cyngor Nedd Port Talbot a' phartneriaid**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**E-bost:** youth.service@npt.gov.uk

**Facebook:** www.facebook.com/NPTyouthservice

**Twitter:** www.x.com/NPT_YS

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247.

# Cynnwys


**Am y cynllun yma** ........ **4**

**Sut rydyn ni wedi gwneud y cynllun yma** ........ **6**

Beth mae pobl ifanc wedi ei ddweud ........ 8

Beth mae gwasanaethau a sefydliadau wedi ei ddweud ..... 14

**Ein nodau** ........ **17**

1. Dod o hyd i bobl ifanc sydd mewn perygl yn gynnar ........ 19

2. Fe fydd gwasanaethau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd ........ 23

3. Edrych i weld ydy'r gefnogaeth yn ateb yr anghenion ...... 29

4. Cael y cyfleoedd iawn i bobl ifanc ........ 33

5. Cael pobl yn arwain ........ 36

**Geiriau Anodd** ........ **39**

# Am y cynllun yma



Rydyn ni wedi gwneud y cynllun yma i gefnogi pobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Tabot.

**Mae ein cynllun am:**



- Dod â grwpiau a gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc at ei gilydd.



- Helpu pobl ifanc i dyfu'n oedolion.



- Gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cael y gefnogaeth maen nhw ei angen i wneud yn dda.

# Ar gyfer pwy mae'r cynllun yma

**Mae'r cynllun yma ar gyfer:**



- Sefydliadau sy'n helpu pobl ifanc.

- Grwpiau, elusennau a darparwyr gwasanaethau eraill.



- Pobl ifanc sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**Nod y cynllun yma ydy:**



- Helpu pobl ifanc i aros mewn addysg, swyddi a hyfforddiant.



- Stopio pobl ifanc rhag bod yn ddigartref. Gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw gartref diogel.


# Sut rydyn ni wedi gwneud y cynllun yma



Rydyn ni wedi gwneud y cynllun yma gyda help gwahanol bobl a sefydliadau.



Diolch i’r bobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot sydd wedi rhannu eu profiadau a’u syniadau.




Fe wnaethon ni ddefnyddio **Fframwaith Ymgysylltu a Chynnydd Ieuenctid Llywodraeth Cymru** i ysgrifennu’r cynllun.




Mae **Fframwaith Ymgysylltu a Chynnydd Ieuenctid Llywodraeth Cymru** yn ganllaw i helpu pobl ifanc sydd angen help ychwanegol. Ar gyfer pobl ifanc sydd:

- Efallai fydd yn gadael addysg neu hyfforddiant.
- Yn peidio â chael swydd neu yn ei chael hi’n anodd cael un.
- Efallai y byddan nhw yn ddigartref.




Fe wnaethon ni ysgrifennu'r cynllun drwy edrych ar:

- Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot 2023–28.
- Cynlluniau a pholisïau eraill.



Rydyn ni hefyd yn edrych ar wybodaeth i ddeall:

- Beth mae pobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot ei angen?
- Yr heriau sy'n eu hwynebu wrth dyfu i fyny.

# Beth mae pobl ifanc wedi ei ddweud



Roedd pobl ifanc yn rhan fawr o wneud y cynllun yma.



Fe wnaeth dros 100 o bobl ifanc rannu eu syniadau a'u profiadau mewn sgyrsiau grŵp a chyfarfodydd wyneb yn wyneb.



Rydyn ni wedi bod yn siarad â phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Roedden nhw'n sôn am lawer o bethau oedd yn bwysig iddyn nhw.

## Gwybod am ddewisiadau ar gyfer y dyfodol

**Dywedodd pobl ifanc ei bod hi'n bwysig:**



- Gwybod pa ddewisiadau sydd ganddyn nhw ar gyfer eu dyfodol.



- Teimlo'n hyderus a gallu gwneud penderfyniadau am eu bywydau eu hunain.

**Mae pobl ifanc yn teimlo yng Nghastell-nedd Port Talbot:**



- Does dim digon o ddewisiadau mewn addysg a hyfforddiant.



- Dydy'r system ddim yn canolbwyntio ar beth mae pob person ei angen neu ei eisiau.

# Iechyd meddwl




Dywedodd pobl ifanc fod **iechyd meddwl** yn broblem fawr iddyn nhw.

**Iechyd meddwl** ydy sut rydych chi'n teimlo ac yn meddwl a sut mae hynny'n effeithio ar eich llesiant.



Fe wnaeth Prifysgol Caerdydd ymchwil a darganfod. Roedd iechyd meddwl gwael gan lawer o fyfyrwyr ysgolion uwchradd yng Nghymru ar ôl COVID-19.



Dywedodd pobl ifanc bod iechyd meddwl yn effeithio ar:

- Eu bywyd cartref.
- Cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant.
- Cael swydd.
- Sut maen nhw'n teimlo am eu dyfodol?



Maen nhw'n teimlo nad ydy'r gefnogaeth i **iechyd meddwl** yn ddigon da.

# Addysg a hyfforddiant




Yng Nghastell-nedd Port Talbot:

- Mae presenoldeb ysgol yn is nag mewn ardaloedd eraill.
- Mae llawer o bobl ifanc yn colli'r ysgol heb ganiatâd.

Fe wnaethon ni ofyn  i bobl ifanc pam nad oedden nhw'n aros mewn addysg na hyfforddiant. Dyma beth wnaethon nhw ddweud wrthyn ni:



- Mae problemau **iechyd meddwl** yn ei gwneud hi'n anodd iddyn nhw.



- Dydyn nhw ddim yn cael digon o gefnogaeth.



- Mae angen mwy o hyfforddiant ar staff i helpu pobl ag **anghenion dysgu ychwanegol**. Mae'r rhain yn bobl ifanc sydd efallai  angen cymorth ychwanegol wrth ddysgu.




- Mae ysgolion yn canolbwyntio gormod ar raddau a chanlyniadau.



- Dydy ysgolion ddim yn gwneud digon i stopio **bwlio**. **Bwlio** ydy pan fydd rhywun neu grŵp o bobl yn trin person arall yn wael.

## Cael cefnogaeth



Dywedodd pobl ifanc wrthyn ni fod yna lawer o resymau pam nad ydyn nhw'n gallu cael yr help maen nhw ei angen.



Mae rhai pobl ifanc yn hoffi helpu eu hunain yn lle gofyn am gefnogaeth. Mae eraill yn teimlo na fydd pobl yn eu helpu.



Mae trafnidiaeth yn broblem fawr, yn enwedig i'r rhai sy'n byw mewn pentrefi. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd teithio i'r man lle mae cymorth ar gael.



Dydy llawer o bobl ifanc ddim yn gwybod:

- Pa gefnogaeth maen nhw'n gallu ei gael?
- Sut i gael cefnogaeth.



Mae pobl ifanc yn aml yn dibynnu ar weithwyr proffesiynol, fel athrawon neu weithwyr cymdeithasol, i'w helpu i gael yr help maen nhw ei angen.

# Beth mae gwasanaethau a sefydliadau wedi ei ddweud



Fe wnaethon ni gael gweithdy hefyd gyda gwahanol wasanaethau a sefydliadau. Maen nhw wedi gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ffyrdd gwell i:

- Dod o hyd i bobl ifanc sydd angen help.
- Darparu'r gefnogaeth gywir i helpu pobl ifanc i gael dyfodol gwell.



Dywedodd pobl bod yna broblemau sy'n stopio sefydliadau a gwasanaethau rhag gweithio gyda'i gilydd. Er enghraifft:

- Sut mae gwasanaethau'n cael eu hariannu?
- Gweithio ar wahân yn lle cydweithio.
- Does dim unrhyw ffordd hawdd o rannu gwybodaeth.



Does dim digon o raglenni i helpu pobl ifanc yn ddigon cynnar.



Mae angen i weithwyr proffesiynol wrando ar bobl ifanc i ddarganfod pwy sydd angen cymorth.



Mae sawl math o gefnogaeth i bobl ifanc, ond does dim rhestr glir o opsiynau.



Dydy pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ddim bob amser yn gwybod pwy sydd yn gallu darparu'r cymorth, na sut i'w gael.




Mae gan bob person ifanc eu hanghenion, eu nodau a'u heriau ei hunain.



Mae angen i ni ganolbwyntio ar roi anghenion pobl ifanc yn gyntaf.



Mae'n bwysig cynnwys pobl ifanc mewn:

- Cynllunio gwasanaethau.
- Gwneud penderfyniadau am eu dyfodol.

# Ein nodau



Rydyn ni eisiau i bob person ifanc gael yr help maen nhw ei angen i dyfu'n oedolion yn y ffordd orau iddyn nhw.

Drwy weithio gyda'n gilydd, fe fyddwn ni yn:



- Helpu pobl ifanc i aros mewn addysg, swydd a hyfforddiant.



- Stopio pobl ifanc rhag bod yn ddigartref. Gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw gartref diogel.

**Fe fyddwn ni yn canolbwyntio ar 5 nod.**



1. Dod o hyd i bobl ifanc sydd mewn perygl yn gynnar. Er enghraifft, mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant, neu i ddod yn ddigartref.



2. Fe fydd gwahanol wasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cymorth i ateb anghenion pob person ifanc.




3. Edrych i weld ydy cefnogaeth yn ateb anghenion pobl ifanc.




4. Cael y cyfleoedd cywir i bobl ifanc gael swydd, sgiliau neu hyfforddiant.




5. Cael pobl sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod popeth yn gweithio'n dda.

# 1. Dod o hyd i bobl ifanc sydd mewn perygl yn gynnar



Fe fydd y nod yma yn helpu i:

- Dod o hyd i bobl ifanc sydd angen cymorth yn gynnar.
- Stopio pethau fel dod yn ddigartref rhag digwydd.
- Helpu pobl ifanc i wneud yn dda yn yr ysgol a dod o hyd i waith.



Mae cymorth cynnar yn gallu:

- Gwella canlyniadau i bobl ifanc.
- Stopio problemau rhag gwaethygu ac angen mwy o help yn nes ymlaen.
- Lleihau'r angen am wasanaethau mwy difrifol neu arbenigol.

# Beth rydyn ni'n ei wneud



Mae ysgolion, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuenctid, a gweithwyr proffesiynol eraill yn dod o hyd i bobl ifanc sydd angen help. Maen nhw yn eu cyfeirio at wasanaethau sydd yn gallu eu cefnogi.



Mae pobl ifanc yn gallu gofyn am help eu hunain drwy **Bwynt Cyswllt Sengl Castell-nedd Port Talbot**.



Mae aelodau'r teulu hefyd yn gallu atgyfeirio pobl ifanc at wasanaethau.



Mae pobl ifanc yn gallu mynd i'r **Hwb Cyfle yng Nghanolfan Siopa Port Talbot** i gael cymorth.



Mae'r **Proffil Asesu Bregusrwydd** yn helpu i ddod o hyd i bobl ifanc sydd efallai angen cymorth ychwanegol.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

Fe fyddwn ni yn:



- Gweithio gyda gwahanol wasanaethau i wella'r ffordd rydyn ni'n dod o hyd i bobl ifanc mewn perygl.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am y gwasanaethau a'r help sydd ar gael.



- Dod â gwybodaeth o wahanol wasanaethau at ei gilydd.



- Ei gwneud hi'n haws i bobl ifanc ofyn am help.



- Rhoi hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc.



- Trefnu cyfarfodydd rhwng gwahanol wasanaethau mewn ysgolion. Fe fydd hyn yn helpu i ddod o hyd i bobl ifanc sydd angen help.

## 2. Fe fydd gwasanaethau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd




Mae angen i wasanaethau gydweithio'n well i ateb anghenion pobl ifanc. A gwneud y broses yn haws iddyn nhw.



Mae pobl ifanc wedi dweud nad ydyn nhw'n hoffi gorfod dweud yr un pethau wrth wasanaethau gwahanol.

## Beth rydyn ni yn ei wneud



- Mae timau tai yn gweithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol i helpu pobl ifanc 16 i 18 oed. Maen nhw'n helpu i ddod o hyd i le diogel i aros wrth benderfynu pa help arall mae'r unigolyn ei angen.



- Mae timau Tai a Gwasanaethau Plant yn cefnogi pobl ifanc sy'n dod yn oedolion. Maen nhw'n cynnig gwasanaethau fel **Pan Rydw i'n Barod a Llety â Chymorth**.




- Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian **Grant Cymorth Ieuenctid** a'r **Grant Cymorth Tai** i helpu i stopio digartrefedd.



- Mae Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot yn helpu pobl ifanc 14 i 18 oed sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae'r gwasanaeth yn cynnal sesiynau mewn ysgolion, colegau a grwpiau ieuenctid am dai a digartrefedd.



- Mae Tai Dewis yn helpu pobl ifanc sydd â phroblemau tai. Maen nhw'n darparu fflatiau a thai sydd yn cael eu rhannu i bobl ifanc sy'n ddigartref. Maen nhw hefyd yn helpu pobl ifanc i fyw ar eu pennau eu hunain a chadw eu cartrefi.



- Mae cynllun Ymgysylltu â Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru yn dweud y dylai pob person ifanc gael gweithiwr arweiniol. Mae'r person yma yn helpu'r person ifanc i ddysgu sgiliau ac yn rhoi cefnogaeth i wneud yn dda mewn addysg, hyfforddiant neu waith.



- Mae ysgolion a gweithwyr ieuenctid yn helpu myfyrwyr sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, swydd neu hyfforddiant. Mae ganddyn nhw gefnogaeth i fyfyrwyr ym Mlwyddyn 11, yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan. Maen nhw'n parhau i gefnogi myfyrwyr ar ôl gadael yr ysgol.



- Mae Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot yn helpu pobl ifanc 16 i 18 oed. Maen nhw yn cynnig cefnogaeth i’w helpu nhw i symud i addysg, swydd neu hyfforddiant.



- Mae Gyrfa Cymru yn helpu pobl ifanc i gynllunio eu gyrfaoedd a dod o hyd i swyddi a hyfforddiant. Maen nhw yn cynnig cymorth ychwanegol i bobl ifanc sydd â risg uchel o beidio â bod mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant.



- Mae’r **Trydydd Sector** yn rhoi cefnogaeth gymunedol bwysig i bobl ifanc. Maen nhw yn cynnig rhaglenni ar gyfer y rhai sydd ag anghenion ychwanegol.

Y **trydydd sector** ydy elusennau, grwpiau gwirfoddol, a sefydliadau dielw. Dydyn nhw ddim yn rhan o’r llywodraeth neu fusnesau.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf



Fe fyddwn ni yn:

- Gwneud yn siŵr bod gan staff y ddealltwriaeth a'r hyfforddiant cywir i helpu pobl ifanc.



- Defnyddio offer sy'n helpu gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd.



- Gwneud yn siŵr bod grŵp y **Strategaeth Ymgysylltu â Phobl Ifanc** yn rhannu gwybodaeth ac yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd.




- Gwneud yn siŵr bod rhestr o'r gwasanaethau ar gael i bobl ifanc. Creu llwybrau sydd yn cael eu rhannu ar draws gwahanol wasanaethau.



- Edrych ar ffyrdd o ddefnyddio'r Cwricwlwm i Gymru i gynnig cymorth.



- Gweithio gydag ysgolion, y **trydydd sector**, i ddarparu cefnogaeth i bobl ifanc.



- Annog ysgolion i weithio gyda'r gymuned i stopio digartrefedd.



- Dod o hyd i ffyrdd o ddarparu cymorth llesiant i bobl ifanc.



- Parhau i wella cysylltiadau rhwng gwasanaethau a thimau tai ar gyfer pobl ifanc.

# 3. Edrych i weld ydy'r gefnogaeth yn ateb yr anghenion



Mae'n bwysig edrych ar sut mae gwasanaethau'n gweithio. Mae hyn yn ein helpu i wneud yn siŵr bod y gefnogaeth yn iawn i bobl ifanc.



Fe fydd edrych ar wasanaethau yn ein helpu i wneud newidiadau fel bod pobl ifanc yn cael gwell cefnogaeth a mwy o gyfleoedd.



Mae hyn yn helpu i ddatblygu hyder ac ymddiriedaeth gyda phobl ifanc a'u teuluoedd.

## Beth rydyn ni yn ei wneud



- Rydyn ni'n casglu gwybodaeth i edrych pa mor dda mae pethau'n mynd.



- Mae Gyrfa Cymru, ysgolion a'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd i edrych ar sut mae pobl ifanc yn gwneud.



- Mae cydlynwyr yn cyfarfod ag ysgolion i ddarganfod pa fyfyrwyr sydd angen help.




- Maen nhw'n diweddaru'r wybodaeth yma yn rheolaidd er mwyn helpu i adnabod y rhai sydd mewn perygl.



- Mae cyfarfodydd rhwng gwasanaethau yn parhau yn ystod gwyliau'r ysgol i wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn cael cefnogaeth.



- Rydyn ni'n edrych ar sut rydyn ni'n gwneud gyda chefnogaeth i bobl ifanc dros 16 oed.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

Fe fyddwn ni yn:



- Gwella'r Grŵp Strategaeth Ymgysylltu â Phobl Ifanc. Edrych ar ba mor dda mae'r systemau'n gweithio.



- Cynnwys pobl ifanc wrth edrych ar wasanaethau.



- Defnyddio gwahanol ffyrdd o gael canlyniadau a gwneud dewisiadau gwell i bob person ifanc.



- Creu llwybr i bobl ifanc sydd mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref neu mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, gwaith a hyfforddiant.




- Creu canllaw ar gyfer gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

# 4. Cael y cyfleoedd iawn i bobl ifanc




Mae pobl ifanc eisiau dewis eu swydd, eu sgiliau a'u hyfforddiant eu hunain. Maen nhw eisiau rheoli eu dyfodol a dewis beth sy'n iawn iddyn nhw.

## Beth rydyn ni yn ei wneud



- Mae **Strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau Castell-nedd Port Talbot** yn ein helpu i weithio gyda busnesau lleol.



- Mae llawer o fforymau busnes wedi'u sefydlu i siarad â busnesau lleol. Maen nhw'n rhannu pa newidiadau ac anghenion sy'n bwysig.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

Fe fyddwn ni yn:




- Gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn cael y cymorth cywir i ddod o hyd i swydd, hyfforddiant neu ddatblygu sgiliau newydd.



- Gweithio gyda'n gilydd i greu rhaglenni sy'n helpu pobl ifanc i weithio.



- Gadael i bobl ifanc helpu i ddylunio'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi.



- Rhannu gwybodaeth am wahanol lwybrau i'r gwaith neu hyfforddiant. Dangos sut i gael mynediad at yr opsiynau yma.



- Gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn cael cyngor a chefnogaeth deg.



- Gweithio gydag ysgolion a lleoedd addysg i helpu pobl ifanc i symud o un cam i'r nesaf.



- Gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn gwybod lle i fynd am fwy o gefnogaeth os ydyn nhw ei angen.

# 5. Cael pobl yn arwain




Mae **Fframwaith Ymgysylltu a Chynnydd Ieuenctid Llywodraeth Cymru** yn dweud bod yn rhaid i bawb helpu i wneud i'r cynllun weithio.



Dywedodd pobl y dylai grwpiau partner rannu'r cyfrifoldeb yn fwy.



Mae'n bwysig i ni a'n partneriaid siarad am beth sy'n gweithio a beth sydd ddim.

## Beth rydyn ni yn ei wneud



Mae ein **Grŵp Amlasiantaeth Cymorth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot** yn dod â'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r **trydydd sector** at ei gilydd i gefnogi pobl ifanc.



Mae fforwm **Sector Gwirfoddol Plant a Phobl Ifanc Castell-nedd Port Talbot** yn helpu grwpiau i siarad am beth maen nhw ei angen a chynllunio gyda'i gilydd.



Mae **Rhwydwaith Darparwyr Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot** yn canolbwyntio ar faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc 11 i 25 oed.



Mae gan y **Grŵp Arweinyddiaeth Plant a Phobl Ifanc** arweinwyr o lywodraeth leol, iechyd, addysg, y **trydydd sector**, a'r gwasanaethau brys. Mae nhw'n gweithio gyda'i gilydd i ateb anghenion pobl ifanc.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf


Fe fyddwn ni yn:



- Sefydlu system i helpu sefydliadau sy'n gweithio ar draws gwahanol grwpiau.



- Cael cefnogaeth gan arweinwyr yn yr holl grwpiau partner i wella gwasanaethau.




- Diweddaru **Grŵp Strategaeth Ymgysylltu â Phobl Ifanc Castell-nedd Port Talbot**. Gwneud yn siŵr ei fod yn dilyn nodau **Fframwaith Ymgysylltu a Chynnydd Ieuenctid Llywodraeth Cymru**.



- Gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am y cymorth maen nhw'n ei gael.

# Geiriau Anodd

### Iechyd meddwl

Iechyd meddwl ydy sut rydych chi'n teimlo ac yn meddwl a sut mae hynny'n effeithio ar eich llesiant.

### Trydydd Sector

Y trydydd sector ydy elusennau, grwpiau gwirfoddol, a sefydliadau dielw. Dydyn nhw ddim yn rhan o'r llywodraeth neu fusnesau.